Anfonodd Iesu fi

Caneuon Ffydd: Rhif 866

Anfonodd Iesu fi
i'r byd i wneud ei waith
a gwneud yn siwr y daw
ei deyrnas ef yn ffaith;
nid gwaith angylion yw
troi byd o boen a braw
yn fyd o gariad pur
a heddwch ar bob llaw:
anfonodd Iesu fi
i wir ryddhau ei fyd,
O Dduw, rho help im wneud
d'ewyllys di o hyd.

EMYN TRADDODIADOL O CUBA
cyf. JORGE MALDONADO
a MEURWYN WILLIAMS, 1940–98

MYFYRDOD

Wrth gyflwyno cyfrol o ganeuon, *Sent by the Lord*, yn bennaf o eglwysi yng nghanolbarth America, gobaith y casglwr John L. Bell oedd y byddai'r caneuon hyn yn dod o hyd i ffordd i mewn i addoliad eglwysi ym Mhrydain. 'Caneuon y bobl gyffredin, nid y rhai proffesiynol, ydy'r rhain, a gallan nhw ein helpu ni i ddathlu hoffter Duw o'r cyffredin', meddai yn ei gyflwyniad.

Cân wedi ei chasglu o'r traddodiad llafar yw'r emyn hwn, a chymerodd Bell y cyfieithiad o'i eiriau cyntaf, 'Sent by the Lord am I', yn deitl i'w lyfr. Mae'r geiriau a'r gerddoriaeth ynghlwm yn ei gilydd, ac er na wyddys dim oll am darddiad y gân, y mae'n enghraifft dda o'r ffordd y gall y traddodiadau gwerin yng nghanolbarth America gynhyrchu caneuon bywiog iawn mewn cyweiriau lleddf. Gwnaeth y diweddar Meurwyn Williams gymwynas â ni wrth ei throsi i'r Gymraeg a'i dwyn bellach, o'i chynnwys yn *Caneuon Ffydd*, yn rhan o addoliad yr eglwysi Cymraeg.

Mae'r gân yn cyfleu'r penderfyniad a'r pwrpas oedd yn

rhan o genhadaeth Crist, a'r ffaith ei fod hefyd wedi rhoi gwaith arbennig i ninnau i'w wneud. Addawodd gymorth yr Ysbryd Glân inni cyn iddo esgyn i'r nefoedd, gan ddweud: '"byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear."' (Actau 1:8). Nid oes dim yn amwys yn y comisiwn hwn. Roedd hi'n amlwg i'r dilynwyr oedd yn bresennol, beth fyddai eu gwaith o'r amser hynny, ac mai eu gwaith nhw fyddai o, ac nid gwaith neb arall! Dyna pam mae ein hemyn yn dweud:

nid gwaith angylion yw
troi byd o boen a braw
yn fyd o gariad pur
a heddwch ar bob llaw.

Un o rinweddau gorau unrhyw weithiwr, beth bynnag fo'i alwedigaeth, ydy ei fod yn 'gweld ei waith', h.y. yn sylweddoli beth ydy ei waith, ac nid yn ei adael i rywun arall. Allwn ninnau ddim gadael y gwaith o hyrwyddo Teyrnas Dduw a bod yn dystion i Iesu Grist, i fodau eraill, mwy 'ysbrydol' na ni'n hunain, fel angylion; ein gwaith ni, a neb arall yw 'gwneud yn siŵr y daw ei deyrnas ef yn ffaith'. Sonia Paul yn 1 Corinthiaid 12 ac Effesiaid 4 am y gwahanol bobl sydd oddi mewn i eglwys: apostolion, proffwydi ac athrawon, er enghraifft, ond nid pawb sy'n gallu bod yn arweinwyr, ac ni all y rheiny ennill y byd ar eu pennau eu hunain – does dim digon ohonyn nhw! Mae'n rhaid i holl bobl Dduw rannu yn y gwaith o ennill y byd i Grist; dyma yw 'gweinidogaeth yr holl saint'. Ac yn ogystal â chydweithio gyda'n gilydd yn y gwaith, yr ydym yn cael cydweithio gyda Duw ei hun. Ef sydd yn ein nerthu i wneud ei ewyllys, fel y daw'r ddaear yn debycach i'r nef.

GWEDDI

'O Dduw, rho help im wneud d'ewyllys di o hyd.' I sylweddoli hefyd dy fod yn fy ngalw i, er cyn lleied sydd gennyf i'w gynnig, yn ôl fy nhyb i, i fod yn rhan o'r tîm sydd yn ennill y byd i Grist. Er gogoniant i'w enw. Amen.